

## REES, RICHARD JENKIN (1868 - 1963), gweinidog (MC)

**Enw:** Richard Jenkin Rees  
**Dyddiad geni:** 1868  
**Dyddiad marw:** 1963  
**Priod:** Apphia Mary Rees (née James)  
**Plentyn:** Richard Geraint Rees  
**Plentyn:** Enid Rees  
**Plentyn:** Muriel Rees  
**Plentyn:** Morgan Goronwy Rees  
**Rhiant:** Catherine Rees  
**Rhiant:** John Rees  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC)  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 10 Medi 1868 yn y Riwel Isaf, Pen-y-garn, Ceredigion., mab John a Catherine Rees. Symudodd ei rieni i Lundain pan oedd yn faban. Addysgwyd ef yn y City of London School, a Choleg Aberystwyth (Ile cafodd radd B.A. Prifysgol Llundain). Bu ar ôl hynny yng Ngholeg Mansfield, Rhydychen, gan raddio yn y dosbarth cyntaf mewn diwinyddiaeth. Ei friwad, yn Aberystwyth, oedd dilyn gyrfa cyfreithiwr, ond o dan ddylanwad cenhadaeth Dr. Henry Drummond yn y coleg troes ei wyneb i gyfeiriad y weinidogaeth Gristionogol. Dechreuodd bregethu yn eglwys Jewin, Llundain. Ordeiniwyd ef yn 1893, a bu'n gweinidogaethu yn eglwys Saesneg Ala Road, Pwllheli (1892-94); Clifton St., Caerdydd (1894-1903); a'r Tabernacl, Aberystwyth (1903-22). Galwyd ef i arolygu Symudiad Ymosodol ei Gyfundeb, gan ymsefydlu yng Nghaerdydd, a bu'n ddiwyd a llwyddiannus yn y swydd honno hyd 1947. Priododd 1894, Apphia Mary James o Ben-y-garn; bu iddynt ddau fab a dwy ferch. (Disgleiriodd ei ail fab, **Morgan Goronwy Rees**, fel llenor; bu'n Brifathro Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, yn y cyfnod 1953-57). Ar ôl ymdeol bu'n byw gyda'i blant ym Mhwllheli, ger Rhydychen, ac yn Waltham Cross, Llundain. Bu farw 30 Ebrill 1963, a chladdwyd ef yng Nghaerdydd.

Yr oedd yn un o brif arweinwyr ei Gyfundeb yn ei ddydd. Bu'n llywydd Sasiwn y De (1920 ac 1954), ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1927). Yr oedd yn areithydd digymar, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyfrannai'n achlysurol i'r wasg, eithr dawn siarad oedd yr eiddo, nid ysgrifennu. Cyhoeddodd werslyfr (yn Saesneg ac yn Gymraeg) ar 2 Samuel (1899), ac esboniad ar epistolau Paul at y Philipiaid a'r Colosiaid (1909).

### Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

### Ffynonellau

*Who's who in Wales* (1921), 397

*Who's who in the Free Churches?* (1951) (1951), 352

*Y Drysorfa*, 1927, 1-4

*Y Goleuad*, 22 Mai 1963

William Morris (gol.), *Deg o Enwogion* (1965) (1965), 35-40

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1964, 397

adnabyddiaeth bersonol

### Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MSS 4761-4795: R. J. Rees Manuscripts

Archifau LIGC: NLW ex 2564: Reverend R. J. Rees diaries

VIAF: 101475303

Wikidata: Q20821204

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION

